

Arolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ward Talygarn, Ysbyty'r Sir:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan.

Dyddiad yr arolygiad:

1, 2 a 3 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 6 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1, 2 a 3 Mai 2018. Ymwelwyd â'r ward iechyd meddwl canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Talygarn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC, dau arolygydd cymheiriaid clinigol (un o'r rhain oedd yr adolygydd enwebedig ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion dan orchymyn Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu'r gydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Mae AGIC hefyd yn ystyried pa mor dda mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid pan fo'n briodol.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y gofal a ddarparwyd ar ward Talygarn yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, canfuom ychydig o dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Cawsom siom nad oedd sylw wedi'i roi i lawer o'r meysydd a nodwyd yn adroddiad y llynedd, er i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC y byddent wedi'u cwblhau erbyn haf 2017.

Gwnaethom anfon llythyr Sicrwydd ar Unwaith i'r bwrdd iechyd o ran effeithiolrwydd y system larwm diogelwch personol. Ymddengys fod hwn yn faes o bryder mewn llawer o'r gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu a ddarperir gan y bwrdd iechyd, a gallai beryglu diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr. Roedd hwn yn un maes y nodwyd y llynedd nad yw wedi cael sylw.

Nid oedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau'n llawn. Roedd hwn yn faes arall i'w wella y llynedd nad yw wedi cael sylw.

Mae hefyd angen archwilio ac adolygu dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol y Ddeddf. Eto, roedd hwn yn faes y nodwyd y llynedd nad yw wedi cael sylw.

Roedd rhai materion iechyd a diogelwch o ran drysau tân, y boeler dŵr poeth, socedi trydanol a llygod yn yr iard.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin â pharch a charedigrwydd
- Roedd yr adran therapi galwedigaethol yn cyflawni gweithgareddau gofal a thriniaeth arloesol a blaengar

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen rhoi sylw i'r system larwm ar unwaith
- Mae angen mynd i'r afael â'r llygod yn ardal yr iard
- Mae angen rhoi cynlluniau ag amserlenni ar waith ar gyfer darparu llety ystafell sengl
- Mae angen archwilio ac adolygu cynlluniau gofal
- Mae angen adolygu dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Mae angen arddangos arwyddion er mwyn nodi ardaloedd lle y defnyddir camerâu teledu cylch cyfyng. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi ynghylch defnyddio teledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y nodwyd yn ei Chod Ymarfer teledu cylch cyfyng 2018
- Mae angen ailaddurno rhai rhannau o'r ward ac mae angen i'r ardal awyr agored fod yn fwy dymunol yr olwg.

Gellir cael rhagor o fanylion o ran gwelliannau yn Atodiad A

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae ward Talygarn yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Ysbyty'r Sir, Heol Coed y Gric, Tref Gruffydd, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 5YA o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ward asesu a thrin iechyd meddwl aciwt 21 gwely i oedolion o'r ddau ryw yw'r gwasanaeth. Neilltuir dau o'r 21 o welyau ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau.

Ar adeg yr arolygiad, roedd 11 o gleifion mewnol, a chafodd pedwar claf newydd eu derbyn yn ystod yr ymweliad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr ward, tri dirprwy reolwr ward, nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys tri seiciatrydd ymgynghorol (un yn rhan-amser), un uwch-swyddog tŷ, therapydd galwedigaethol a thîm bychan o gynorthwyr seicoleg a therapi galwedigaethol. Gallai'r tîm hefyd gael mynediad at wasanaethau eirioli a'r tîm ymyrraeth frys. Yn ogystal, mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi staff cynnal a chadw, domestig a gweinyddol sy'n cynorthwyo â'r gwaith o redeg yr uned o ddydd i ddydd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Yn ystod ein harolygiad, cawsom sylwadau cadarnhaol gan gleifion ynghylch y gofal a ddarperir ar ward Talygarn.

Gwelsom staff yn ymgysylltu â chleifion mewn modd cyfeillgar, ond proffesiynol, yn enwedig y tîm iechyd galwedigaethol, sy'n aelodau tîm arloesol a brwdfrydig. Gwnaeth y cleifion a'r aelod o'r gwasanaeth eirioli gadarnhau'r ymgysylltiad da hwn gan yr holl staff.

Gwelsom fod cleifion yn parhau i dderbyn gofal mewn ystafelloedd aml-feddiannaeth, ac nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i newid hyn, er iddynt hysbysu AGIC bod papur arfarnu opsiynau wedi'i ddatblygu ym mis Medi 2017.

Roedd yr iard yn llwm, ac roedd staff a chleifion yn gweld fermin yno'n gyson. Eto, amlygwyd hwn yn yr adroddiad diwethaf ac nid oedd wedi cael sylw, er yr hysbyswyd AGIC y byddai hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2017.

Nid oedd unrhyw ystafell bwrpasol i ymwelwyr, er i AGIC gael gwybod y byddai ystafell ymwelwyr cyfeillgar i blant gyda staff ynddi'n cael ei chlustnodi yn uned Talygarn erbyn mis Ebrill 2017.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo hawliau cleifion ac iddyn nhw roi adborth ar y gwasanaeth.

Gwnaethom siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad, a roddodd sylwadau cadarnhaol ynghylch agwedd a dull gweithredu'r staff. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch a chwarteisi a'u bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd nodi bod y diwrnodau'n hir a gallent fod yn eithaf diflas ar brydiau.

"Byddai'n braf cael campfa."

"Bwyd yn rhagorol."

"Teimlo'n ddiogel."

Cadw'n iach

Roedd cyfleusterau ar gael i hybu ffordd iach o fyw a llesiant cleifion.

Gwelsom fod posterï wedi'u harddangos a oedd yn darparu gwybodaeth am roi'r gorau i ysmegu a bwyta'n iach.

Roedd gan gleifion fynediad at ychydig o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio ar randir ar dir yr ysbyty (sy'n arloesol ac yn enghraifft o arfer gwerth ei nodi), coginio, gwyllo'r teledu/DVDs, a threulio amser yn yr iard. Roedd iard goncrit gul â wal uchel a oedd yn edrych yn ddiflas ac yn ddigroeso. Amlygwyd hyn yn yr adroddiad diwethaf. Gallai cleifion eistedd y pen draw iddi gyda pherthnasau, ond nid oedd teledu cylch cyfyng yn gwyllo'r ardal hon, felly roedd yn "fan dall" o ran diogelwch. Mae angen i'r rheolwr sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd i gadw llygad ar gleifion yn yr iard ar adegau rheolaidd. Byddai'r iard yn elwa ar gael gwelyau blodau uwch, man wedi'i ddecio neu fan â glaswellt artiffisial lle gallai cleifion fynd ati i dyfu blodau neu lysiau a chymryd cyfrifoldeb am ofalu am yr ardal o ddydd i ddydd. Dywedodd y therapyddion galwedigaethol wrthym eu bod yn gobeithio dod â rhywfaint o waith y rhandir i'r iard. Gwnaethom nodi fod y mannau ysmegu dynodedig dan eu sang â bonion sigarêts.

Nid oedd cyfleuster campfa ar gael, er bod cleifion wedi sôn yr hoffent gael un. Dywedodd staff wrthym eu bod wrthi'n cadarnhau trefniadau i ddefnyddio cyfleusterau'r awdurdod lleol, yn amodol ar brisiau derbynol.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym mai'r rhan anoddaf o'u harhosiad ar y ward oedd y diflastod. Nid yw hyn yn hybu triniaeth effeithiol na'n hyrwyddo llesiant cleifion

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward ddatblygu rhaglen ehangach o weithgareddau er mwyn lleihau'r diflastod a ddisgrifiwyd gan gleifion

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr iard yn amgylchedd dymunol a diogel i gleifion a pherthnasau, heb unrhyw lygod arno.

Gofal ag urddas

Nid oedd y ward bob amser yn hybu preifatrwydd ac urddas cleifion. Fodd bynnag, gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd cyfeillgar a chwrtais.

Ychydig iawn o fannau dynodedig i ddynion a merched oedd yno, dim ond ystafelloedd gwely a thoiledau. Nid oedd unrhyw ardal arall, fel lolfeydd ac ystafelloedd ymolchi, yn benodol i un rhyw neu'r llall. Nid oedd hyn yn rhoi dewis i gleifion o le a chyda pwy roeddent eisiau eistedd ac ymlacio.

Dwy ystafell wely sengl yn unig oedd â thoiled a chyfleusterau golchi ensuite. Roedd gweddill yr ystafelloedd yn gymysgedd o ystafelloedd cysgu cymunedol sengl, dwbl, pedwar gwely a chwe gwely. Nid yw hyn yn hybu preifatrwydd nac urddas pobl. Gwnaethom awgrymu y dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwneud ciwbiclau yn yr ystafelloedd pedwar a chwe gwely fel bod gan bawb ddrws, ac felly mwy o breifatrwydd (yn absenoldeb ystafelloedd sengl en-suite), ond dywedodd staff uwch wrthym nad oedd unrhyw gynlluniau ar droed i newid y ddarpariaeth i ystafelloedd gwely unigol ar hyn o bryd.

Dywedodd cleifion wrthym y gallent bersonoli eu hystafelloedd gyda'u heiddo eu hunain, yn dibynnu ar eu cyflwr meddyliol ar y pryd, ond nid oeddent yn cael hongian unrhyw beth ar y waliau. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw ystafelloedd a oedd wedi'u personoli. Cadarnhaodd cleifion bod staff yn curo ar ddrysau eu hystafelloedd gwely cyn dod i mewn, a gwelsom hyn yn digwydd, ac roedd hyn yn cadw preifatrwydd cleifion i ryw raddau

Roedd y paneli arsyllu ar ddrysau'r ystafelloedd gwely wedi'u gorchuddio â llenni y gallai'r cleifion eu cau i gael preifatrwydd. Yn yr ystafelloedd cymunedol fodd bynnag, os oedd un claf dan wylidwriaeth oherwydd ei gyflwr meddyliol, golygai hyn na allai'r un claf yn yr ystafell honno gael preifatrwydd drwy gau'r llenni. Golygai hyn y gallai cleifion a staff eraill edrych i mewn i'r ystafelloedd gwely ar unrhyw adeg, felly nid oedd yn hyrwyddo urddas na pharch.

Ychydig iawn o ofod unigol oedd ar yr uned, ac nid oedd unrhyw ystafelloedd tawel nac ystafelloedd â llai o bethau i gyffroi pobl a oedd yn anhwylyd dros ben. Golygai hyn y gallai'r cleifion yn yr ystafelloedd cymunedol fod mewn sefyllfa, o bosibl, lle nad oes ganddynt unrhyw ofod unigol i'w hunain.

Canfuom fod cofnodion gofal cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel, gyda'r nod o atal mynediad diawdurdod at wybodaeth gyfrinachol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwneud ystafell dawel / ystafell heb bethau i gyffroi pobl ar gyfer cleifion sydd angen neu sy'n dymuno cael amser i'w hunain i ffwrdd o gleifion eraill.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd ychydig o wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos ar y ward i gleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod posterï'n arddangos gwybodaeth am wasanaethau eirioli, rhoi'r gorau i ysmegu, amserau ymweld a'r polisi drws clo. Nid oedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion roi adborth ar y gofal yr oeddent yn ei gael ar y ward na gwybodaeth am broses gwyno'r GIG, Gweithio i Wella. Fodd bynnag, roedd hyn yn ei le cyn diwedd yr arolygiad.

Gwelsom fod arwyddion clir o fewn yr uned yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddion i hysbysu cleifion a pherthnasau bod camerâu teledu cylch cyfyng yn ardal ysmegu'r iard. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi ynghylch defnyddio teledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y nodwyd yn ei Chod Ymarfer teledu cylch cyfyng 2018¹.

Roedd bwrdd ward "Dewch i gwrdd â'r tîm", gyda lluniau o aelodau'r tîm, gan gynnwys y therapyddion galwedigaethol a'r ymgynghorwyr. Byddai'n fuddiol pe bai'r seicolegwyr yn cael eu hychwanegu at y bwrdd hwn. Mae hyn yn golygu y gall cleifion a'u perthnasau adnabod yr aelodau o'r staff a gwybod beth yw eu rolau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom staff yn ymgysylltu â chleifion ac yn siarad â nhw mewn modd i'w helpu i ddeall eu gofal.

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom ryngweithio cyfeillgar, ond proffesiynol, rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd eu hamser ac yn defnyddio iaith briodol wrth siarad â chleifion er mwyn hybu eu dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn cael ei ddweud.

Cynhaliwyd cyfarfod trosglwyddo amlddisgyblaethol bob bore, lle trafodwyd penderfyniadau llwybr ar gyfer pob claf. Roedd perthynas weithio dda gyda'r gweithwyr cymdeithasol a oedd yn mynychu'r cyfarfod hwn. Roedd y rhain wedi'u lleoli gyda'i gilydd i fyny'r grisiau.

Gofal amserol

Canfuom fod cleifion yn cael gofal amserol i ddiwallu eu hanghenion ar y cyfan.

Gwelsom staff yn rhoi sylw i gleifion ac yn ymateb i'w ceisiadau mewn modd amserol. Dywedodd cleifion wrthym hefyd fod y staff yn trefnu help iddynt yn gyflym pan oedd ei angen.

Roeddem yn pryderu nad oedd clychau larwm ar gael mewn mannau cymunedol nac ym mhob ystafell wely. Golygai hyn pe bai claf neu aelod o staff angen cymorth mewn sefyllfa o argyfwng, mae'n bosibl na fyddai'r ymateb bob amser yn brydlon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a pherthnasau'n ymwybodol o'r mannau lle y mae teledu cylch cyfyng ar waith, a sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y'u nodwyd yn ei Chod Ymarfer ar deledu cylch cyfyng 2018.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod botymau galw nyrs / clychau larwm mewn mannau trwy gydol yr uned.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd gofal unigol yn cael ei ddarparu, ac roedd hwn, yn gyffredinol, yn canolbwyntio ar driniaeth ac adferiad a gefnogwyd gan yr arferion lleiaf rhwystrol, wrth gynllunio gofal ac mewn arferion ward neu ysbyty.

Roedd gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol, fel meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, o fewn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd yr awdurdod gofynnol yn ei le).

Hawliau pobl

Gwnaethom edrych ar y llyfryn gwybodaeth a gynigiwyd i gleifion a'u perthnasau wrth gael eu derbyn i'r ward, a gwelsom fod yr wybodaeth o ran statws derbyn yn amwys ac yn amhendant. Mae angen ail-ysgrifennu'r wybodaeth ynghylch cleifion anffurfiol mewn modd mwy cefnogol a llai brawychus. Roedd hwn yn welliant yn adroddiad y flwyddyn flaenorol nad yw wedi cael sylw llawn.

Yn ogystal â hyn, nid oedd ystafell deuluol i ymwelwyr gyda llyfrau a theganau i aelodau iau o'r teulu. Rhaid i ymwelwyr rannu cyfleusterau'r ward gyda chleifion wrth ymweld â pherthnasau. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw urddas i gleifion anhwylyus neu rai sydd eisiau preifatrwydd pan fyddant ar y ward. Dywedodd staff wrthym fod ystafell i fyny'r grisiau a ddefnyddiwyd gan blant a oedd yn ymweld â rhywun, a oedd yn golygu nad oedd angen iddynt fynd i'r ward. Mae hyn yn arfer da, ond nid oedd yr ystafell hon wedi'i dynodi, felly byddai'n rhaid i staff sicrhau bod yr ystafell ar gael cyn y gellid cadarnhau'r ymweliad. Nid oedd yn gyfeillgar i blant ac nid oedd unrhyw lyfrau na theganau ar gael. Roedd hyn eto yn welliant a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf.

Roedd cleifion yn gallu defnyddio eu ffonau symudol eu hunain, yn unol ag asesiad risg claf unigol. Gallai cleifion heb ffôn symudol ddefnyddio ffôn y ward i ffonio perthnasau, ffrindiau neu eiriolwyr.

Y broses ar gyfer gwneud galwad ar hyn o bryd yw bod staff yn gwneud yr alwad o'r swyddfa ac yn ei throsglwyddo i ffôn talu ar y wal yn ardal y dderbynfa. Neu pan fydd claf yn derbyn galwad, eto, bydd staff yn ei throsglwyddo i'r ffôn talu ar y wal. Golyga hyn bod yn rhaid i gleifion siarad mewn tramwyfa gyhoeddus. Pan wnaethom siarad â staff ynghylch preifatrwydd, cawsom wybod y gallai cleifion ddefnyddio'r ffôn yn swyddfa'r meddyg hefyd, ond byddai'n rhaid i staff oruchwylio'r alwad. Golyga hyn na all cleifion wneud na derbyn galwadau ffôn preifat os nad oes ganddyn nhw eu ffôn symudol eu hunain.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a oedd dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl, a gwelsom fod y ddogfennaeth a oedd yn ofynnol gan ddeddfwriaeth yn ei lle mewn sampl fechan o gofnodion cleifion a welwyd gennym. Roedd hyn yn dangos bod hawliau cleifion wedi cael eu hyrwyddo a'u diogelu, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Trafodir ansawdd y dogfennau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y geiriad ar dderbyn anffurfiol yn y llyfryn gwybodaeth yn llai brawychus.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio ystafell i fyny'r grisiau fel ystafell ddynodedig i deuluoedd/ymwelwyr proffesiynol. Gallai hyn gynnwys llyfrau a theganau ar gyfer plant.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried prynu ffôn di-wifr er mwyn galluogi cleifion i gael sgyrsiau preifat dros y ffôn.

Gwrando a dysgu o adborth

Ni wnaethom weld gwybodaeth wedi'i harddangos i gleifion a'u teuluoedd am sut y gallent roi adborth neu leisio pryder (cwyn), ond roedd yr wybodaeth hon ar gael yn y llyfryn gwybodaeth a roddwyd iddynt wrth gael eu derbyn. Yn ogystal, ni welsom flychau awgrymiadau ar gael, y gellid eu defnyddio gan gleifion a'u teuluoedd i roi adborth am y gwasanaeth.

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) a gyflwynwyd gan gleifion a/neu eu gofalwyr. Roedd y rhain yn cydfynd â 'Gweithio i Wella', sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon ynghylch gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth hon ar gael yn hawdd pan wnaethom gyrraedd y ward. Yn ystod yr ymweliad arolygu, roedd un o ddirprwy reolwyr y ward wedi argraffu'r wybodaeth berthnasol ac wedi'i gwneud yn hygyrch ar y man gwybodaeth yn y dderbynfa.

Roedd gwybodaeth am eiriolaeth wedi'i harddangos mewn ardaloedd cymunedol. Cadarnhaodd staff uwch y ward y byddai cleifion yn cael cymorth i gael mynediad at y gwasanaeth eirioli (i'w helpu i leisio pryderon) yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod cynrychiolydd yn ymweld â'r ward deirgwaith yr wythnos ac roedd ar gael dros y ffôn ar adegau eraill. Gwnaethom siarad â'r cynrychiolydd eirioli, a gadarnhaodd fod staff y ward yn rhagweithiol o ran gofyn am y gwasanaeth ar ran cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod gan gleifion a'u perthnasau fodd o roi adborth ar eu profiadau o'r gwasanaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y tîm staff yn ymroddedig i ddarparu gofal unigol ar gyfer cleifion a oedd yn ddiogel ac yn effeithiol.

Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon fod trefniadau'r bwrdd iechyd i reoli risg a hybu diogelwch a lles staff a chleifion bob amser yn effeithiol, yn benodol; y system larwm aneffeithiol, y pwyntiau dall yn yr ardd a'r trefniadau i gludo cleifion i ysbytai eraill.

Roedd gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac atal a rheoli heintiau.

Roedd cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith, ond roedd angen archwilio ac adolygu'r rhain. Amlygwyd hyn yn yr adroddiad y llynedd ac nid yw wedi cael sylw.

Roedd dogfennaeth gadw statudol yn gyflawn ac yn dangos bod hawliau'r claf wedi'u hyrwyddo a'u diogelu, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, gwnaethom ddod o hyd i rai meysydd o ran gwybodaeth am feddyginiaeth ac absenoldeb adran 17 nad oedd yn eu lle. Roedd absenoldeb adran 17 wedi'i amlygu y llynedd ac nid oedd wedi cael sylw.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Nid oeddem yn fodlon fod trefniadau bob amser ar waith i gadw cleifion a staff yn ddiogel.

Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn cael larymau i hybu eu diogelwch personol pan oeddent yn y gwaith, ond cawsom wybod, a gwelsom, nad oedd digon o'r rhain ar gyfer pob aelod unigol o'r staff nac ar gyfer unrhyw weithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r ward. Yn ogystal, nid oeddent yn addas i'r

diben. Roedd y larymau'n debyg i setiau symud a siarad. Byddai'n rhaid i'r staff siarad i mewn i'r dyfeisiau llaw i ofyn am gymorth a hefyd wrth ymateb i gydweithwyr a oedd yn gofyn am help. Nid oedd hyn bob amser yn bosibl, yn dibynnu ar y sefyllfa o argyfwng yr oeddent yn ei hwynebu. Nid oedd goleuadau rhybuddio gweledol ar y ward i roi gwybod i staff lle i ymateb iddo. Cyflwynodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith o ran y larymau er mwyn sicrhau bod yr uwchreolwyr yn gweithredu mewn modd amserol er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion a staff. Er bod AGIC wedi derbyn ymateb boddhaol, rydym wedi awgrymu y dylid adolygu'r mater diogelwch hwn ar draws y bwrdd iechyd gan ei fod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

Cafodd ein pryderon o ran y system larwm personol sylw o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn union ar ôl yr arolygiad yn gofyn i gamau lliniaru brys gael eu cymryd.

Sicrwydd ar Unwaith:

Gwnaethom nodi'r maes pryder canlynol a oedd yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr ar ward Talygarn:

Canfu AGIC nad oedd y system larwm bresennol a ddefnyddiwyd yn yr adeilad i rybuddio staff o sefyllfa oedd o argyfwng yn addas i'r diben, o ran y ffaith;

- Nid oedd niferoedd digonol o larymau llaw.
- Mae'r system yn golygu bod yn rhaid i staff siarad i mewn i'r teclyn llaw (yn yr un modd â set symud a siarad) er mwyn hysbysu cydweithwyr o lle mae'r digwyddiad yn digwydd. Mae posibilrwydd na fyddai staff mewn sefyllfa i allu cael gafael ar y teclyn llaw i siarad i mewn iddo mewn sefyllfa o argyfwng.
- Nid yw'r system yn rhoi rhybudd gweledol o lle mae'r argyfwng.
- Nid yw'r system hon yn amserol ac nid yw'n darparu amgylchedd diogel i staff na chleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella:

Mae angen i'r bwrdd iechyd ddarparu system ddiogel ar unwaith ar gyfer rhybuddio staff o pryd a lle mae sefyllfa o argyfwng.

Mae rhagor o fanylion ar y gwelliannau sydd angen eu gwneud ar unwaith wedi'u darparu yn Atodiad B.

Roeddem hefyd yn poeni fod "man dall" ar waelod yr iard y tu allan, lle nad oedd modd gweld cleifion, perthnasau na staff o'r prif adeilad. Yn ogystal, dywedodd y staff wrthym fod problem gyda chontraband (cyffuriau gwaharddedig fel arfer) yn cael ei daflu dros y ffens o amgylch yr iard. Roedd camerâu teledu cylch cyfyng yn yr ardal ysmegu ar ben ucha'r iard, ond nid oedd y rhain yn cyrraedd yr ardal eistedd ar y gwaelod.

Ward asesu aciwt i oedolion yw Talygarn sy'n cynnwys adeilad dau lawr, ac mae'r mwyafrif o'r cyfleusterau ar y llawr daear. Mae mynediad gwastad o'r maes parcio i'r brif fynedfa. Ceir mynediad trwy system intercom er mwyn atal pobl anawdurdodedig rhag dod i mewn i'r adeilad. Gellir gweld gwybodaeth am amserau ymweld, a'r polisi drws clo wrth y brif fynedfa. Mae'r tîm argyfwng a'r seicolegwyr yn gweithio ar yr ail lawr, a gall cleifion gael eu hebrwng i'r manau hyn. Mae mynediad uniongyrchol i'r lefel hon o gefn yr adeilad hefyd, a dyma lle y mae plant yn dod i mewn i ymweld â pherthnasau.

Yn gyffredinol, roedd y ward yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda yn ôl pob golwg, ac roedd systemau ar waith i adrodd peryglon amgylcheddol oedd angen sylw ac angen eu trwsio. Roedd ystafelloedd gwely wedi'u hailwampio, a mesurau gwrth-glymu wedi'u gosod fel gwelyau, wardrobau a gorchuddion rheiddiadur penodol. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith hwn wedi'i gynllunio'n dda, oherwydd roedd gorchuddion y rheiddiaduron yn cuddio'r holl bwyntiau trydanol bellach ac, o ganlyniad, roedd yn rhaid i'r staff dynnu'r gorchudd rheiddiadur er mwyn cyrraedd y socedi i blygio'r offer glanhau i mewn. Yn ogystal, roedd dyluniad y wardrob yn un o'r ystafelloedd gwely'n golygu symud y gwely i ochr arall yr ystafell. Golygai hyn bod angen i'r claf ddod allan o'r gwely a chroesi'r ystafell er mwyn defnyddio'r swits golau.

Gwnaethom drafod problemau gyda chynrychiolydd o'r tîm cynnal a chadw o ran y bibell gorlifo o'r boeler dŵr poeth a'r cebl daear ar gyfer y trydan yn y gegin. Cawsom ein sicrhau y byddai'r ddwy broblem yn cael sylw yr wythnos ganlynol pan fyddai'r eitemau priodol wedi'u harchebu.

Roedd drws tân a oedd wedi'i gadw ar agor dros gyfnod ein harolygiad. Roedd hyn yn galluogi'r staff i weld holl hyd y ward. Am resymau diogelwch, rhaid i'r bwrdd iechyd osod ategion drws magnetig ar ddrysau tân sy'n cael eu cadw ar agor yn barhaol.

Gwelsom fod asesiadau risg perthnasol wedi'u cwblhau fel rhan o'r broses cynllunio gofal i helpu i nodi anghenion cleifion o ran hybu eu hiechyd a'u llesiant. Fodd bynnag, ni wnaethom weld unrhyw anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi, fel ymweliadau priodol i blant.

Gwelsom fod ystafelloedd a chypyrddau storio ar glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a damweiniol gan gleifion ac ymwelwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau diogelwch cleifion, perthnasau a staff ym mhob rhan o'r iard

Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder ynghylch contraband yn cael ei daflu dros y ffens o amgylch yr iard

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r mynediad at socedi trydanol yn yr ystafelloedd gwely

Mae angen i'r bwrdd iechyd edrych ar leoliad y swits golau yn yr ystafell wely a nodwyd

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y tîm cynnal a chadw'n cwblhau'r gwaith sydd eto i'w wneud yn y gegin

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan ddrysau tân ddyfeisiau cau magnetig pe bai tân

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Gwelsom fod y ward yn lân, yn daclus ac wedi'i chynllunio i hwyluso glanhau effeithiol. Gwelsom hefyd fod gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hylif diheintio dwylo mewn manau clinigol. Mae hylendid dwylo yn bwysig i leihau'r perygl y bydd cleifion yn datblygu heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Fodd bynnag, gwelsom fannau lle roedd gwaith ailwampio wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau, er enghraifft, yn yr ystafell ymolchi. Golygai hyn ei bod hi'n anodd cynnal glendid effeithiol mewn rhai manau. Mae angen cwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl.

Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith i hybu glanhau rheolaidd ac effeithiol. Cadarnhaodd staff fod gan gleifion eu hamserlenni eu hunain ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau golchi dillad i olchi eu dillad eu hunain.

Dywedwyd wrthym hefyd fod peiriant golchi dillad y cleifion yn gorlifo ar y llawr yn aml, naill ai gan fod rhywbeth yn blocio'r bibell gollwng dŵr neu gan fod y dŵr yn gwacáu o'r peiriant yn gyflymach nag y mae'n gallu mynd i mewn i'r

bibell gollwng dŵr. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sylw'n cael ei roi i hyn.

Roedd toiledau penodol i'r ddau ryw yn y manau cymunedol. Dywedodd y staff wrthym fod y rhain yn newydd ac yn blocio'n aml. Digwyddodd hyn yn ystod ein harolygiad, a bu staff domestig yn dadflocio'r toiled. Pan holwyd pam nad oedd y tîm cynnal a chadw wedi'i alw, cawsom wybod na allai'r ward fod heb doiled penodol i'r ddau ryw wrth aros am y tîm cynnal a chadw i ddod, oherwydd gallai hynny gymryd dyddiau. Mae angen rhoi sylw i'r hyn sy'n achosi'r rhwystrau parhaus hyn.

Defnyddiwyd biniau plastig dynodedig ar gyfer storio a chael gwared ar offer miniog meddygol, er enghraifft, nodwyddau hypodermig. Storiwyd y rhain yn ddiogel yn yr ystafell glinigol.

Disgrifiwyd system archwilio reolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd y system hon yn cael ei chwblhau gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella, fel y gellid cymryd camau priodol lle y bo angen. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bibell gollwng dŵr ar gyfer peiriant golchi'r cleifion yn gweithio'n dda

Mae angen i reolwr y ward wneud rhestr o'r gwaith ailwampio sydd i'w wneud o hyd a gofyn i'r tîm cynnal a chadw priodol ei gwblhau

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y toiledau yn gweithio'n dda.

Maeth a hydradu

Canfuom fod cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Gwelsom fod bwydlen amrywiol wedi'i harddangos, a dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael dewis o bethau i'w bwyta. Roedd diodydd a byrbrydau ar gael trwy gydol y dydd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd ac yn credu ei fod o ansawdd da.

Nid oedd gan gleifion fynediad at gegin i wneud diodydd poeth neu oer ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gwelsom fod ystafell bwrrpasol wedi'i nodi eisoes ac roedd wrthi'n cael ei ddodrefnu.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuom fod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar gael, ond roedd yn hen (Hydref 2017).

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd ac oergell dan glo mewn ystafell dan glo. Gwelsom fod tymereddau'r oergell yn cael eu monitro a'u cofnodi gan staff y ward er mwyn dangos bod oergelloedd ar y tymheredd cywir i storio meddyginiaethau oedd angen eu cadw mewn oergell. Nid oedd tymereddau'r ystafell glinig yn cael eu cofnodi, ac awgrymwyd y dylai'r bwrdd iechyd ystyried dechrau gwneud hyn.

Canfuom fod Cyffuriau a Reolir, sydd â threfniadau rheoli llym y diffiniwyd yn dda, yn cael eu rheoli'n ddiogel. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod dwy nyrs gofrestredig yn cynnal gwiriadau stoc rheolaidd o'r cyffuriau a reolir.

Roedd gan y staff fynediad at fferyllydd a allai ddarparu help a chynghor ar feddyginiaethau a ddefnyddiwyd ar y ward. Mae'r fferyllydd yn ymweld â'r ward ddwywaith yr wythnos ac yn cymryd rhan yn y rowndiau ward, y gwaith o wirio'r stoc, yn siarad â chleifion ac yn cynnig hyfforddiant i staff iau/newydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau cyffuriau a gweld bod y rhain wedi'u cwblhau'n llawn. Gwelsom fod siartiau wedi'u llofnodi a'u dyddio gan staff meddygol a staff nyrsio pan oedd meddyginiaeth wedi'i rhagnodi a'i rhoi. Fodd bynnag, nid oedd yr holl siartiau cyffuriau y gwnaethom edrych arnynt yn cofnodi statws Deddf Iechyd Meddwl cyfreithiol bob claf (h.y. yr adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl y cawsant eu cadw oddi tani), ynghyd â'r ddogfennaeth gyfatebol a oedd yn nodi pa feddyginiaethau y gellid eu rhoi.

Roedd offer priodol ar gael i fesur effeithlonrwydd unrhyw feddyginiaethau a roddwyd, megis siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol¹.

¹ Dull a ddefnyddir gan [wasanaethau meddygol](#) i bennu pa mor sâl yw claf yn gyflym yw'r sgôr rhybudd cynnar cenedlaethol (NEWS).

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob ward bolisiau a gweithdrefnau cyfredol.

Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod statws Deddf Iechyd Meddwl cyfreithiol y claf yn cael ei gofnodi ar y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod trefniadau ar waith i hybu lles a diogelwch oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

Oedolion yn unig sy'n cael gofal ar ward Talygarn. Roedd staff uwch y ward yn gallu disgrifio'r broses ddiogelu a'r trefniadau ar gyfer gwaith amlasiantaeth i ddiogelu oedolion.

Darparodd staff uwch grynodedb o'r hyfforddiant staff, a dangosodd hwn fod y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf. Trafodir hyfforddiant mewn mwy o fanylder yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Fel y nodwyd ynghynt, dylai'r bwrdd iechyd ddarparu ystafell ymweld ddynodedig sy'n gyfeillgar i blant.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn ystod ein harolygiad, canfuom fod trefniadau ar waith i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion (ac eithrio'r larymau personol a'r camerâu teledu cylch cyfyng yn yr iard).

Gwelsom fod y ward yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer cleifion a bod cynlluniau gofal yn cael eu datblygu o amrediad o asesiadau risg perthnasol. Roedd y staff yn wybodus ynghylch anghenion gofal cleifion, a chanfuom eu bod yn darparu gofal a chymorth i ddiwallu anghenion cleifion.

Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar dechnegau lleihau ymddygiad heriol. Er nad yw ataliaeth yn cael ei defnyddio'n rheolaidd, mae'r staff wedi'u hyfforddi ar sut i atal cleifion, a rhagnodir meddyginiaeth ar gofnodion rhoi meddyginiaeth unigolion yn ôl yr angen.

Nid oedd ystafell o'r neilltu ac, fel yr awgrymwyd ynghynt yn yr adroddiad, gallai'r uned elwa ar ystafell gofal uchel/llai ysgogol i gefnogi cleifion sydd mewn trallod.

Cadw cofnodion

Canfuom fod cofnodion yn drefnus ac yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Roedd cofnodion gofal cleifion ar bapur ac roeddent wedi'u strwythuro'n dda ac yn hawdd eu defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol un claf ar draws ward Talygarn. Y rheswm dros hyn oedd mai dim ond un claf oedd wedi'i gadw yn ystod yr ymweliad. Roedd yr holl gleifion eraill yn anffurfiol. Roedd y cais i gael ei gadw yn yr ysbyty wedi'i wneud yn unol â gofynion y Ddeddf. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r claf wedi'u hybu a'u hamddiffyn, yn ôl gofynion y Ddeddf.

Roedd ffeiliau'r ward yn drefnus ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth yr oedd ei hangen. Roedd y meysydd i'w gwella'n cynnwys;

- Nid oes llythyr hawliau meddyginiaeth yn cael ei roi i'r perthynas agosaf ar hyn o bryd
- Dylid marcio pob ffurflen absenoldeb adran 17 sydd wedi dod i ben yn glir, oherwydd nid yw bellach yn ddilys ac ni ddylid ei chadw yn y ffolder statudol
- Mae angen cynnwys copi o'r ffurflenni craffu meddygol

Daeth y rheolwr Deddf Iechyd Meddwl i'r ward i siarad â'r tîm arolygu, a thrafodwyd y meysydd uchod mewn manylder.

Roedd gwybodaeth am y Ddeddf a sut i gael mynediad at gymorth eirioli ar gael i gleifion.

Roedd copïau o'r Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru, 2016 (Cymraeg a Saesneg) ar gael ar y ward.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward a'r rheolwr Deddf Iechyd Meddwl sicrhau bod y meysydd o dan bwyntiau bwled yn cael sylw.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o dri chlaf.

Er i ni weld asesiadau iechyd meddwl ac iechyd corfforol llawn a thrylwyr, asesiadau risg a nodiadau achos manwl, ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael yn gyffredinol pan oedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth cyfredol yn eu lle. Canfuom y canlynol;

- Roedd yr amcanion a'r ymyriadau'n eithaf cyffredinol (h.y. yn ymwneud â meddyginiaeth fel arfer)
- Ni wnaethom weld tystiolaeth fod cryfderau'r claf yn cael eu nodi a'u defnyddio i gynllunio gofal a thriniaeth
- Nid oedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn canolbwyntio ar adsefydlu ac adfer (nid oedd Cynllun Gofal a Thriniaeth mewn dwy ffeil)
- Nid oedd anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi bob amser
- Nid oedd asesiadau galluedd iechyd meddwl yn cael eu cynnal
- Ni welwyd fod cleifion wedi llofnodi i ddweud eu bod yn cytuno â'u cynlluniau gofal a'u bod yn cymryd rhan ynddynt
- Nid oedd y cyd-gysylltydd gofal wedi'i nodi'n glir
- Dim asesiad o anghenion deietegol na monitro wythnosol o bwysau
- Dim tystiolaeth o gymorth eirioli

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward archwilio ac adolygu cofnodion cleifion, yn enwedig y cynlluniau gofal a thriniaeth, a sicrhau bod y rhain yn eu lle, yn fanwl ac yn gyfredol.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Ar adeg ein harolygiad, cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw gleifion dan awdurdodiadau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Darparodd y staff uwch grynodeb o'r hyfforddiant staff, a dangosodd hwn fod holl staff y ward wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Ddeddf Iechyd Meddwl / Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar ward Talygarn. Roedd polisi drws agored i'r staff, ac roedd y rheolwr yn weladwy ac yn hawdd mynd ato. Dywedodd y staff wrthym y gwelwyd y rheolwr yn helpu'n aml ar y ward pan oedd y ward yn brysur.

Gwelsom waith tîm da a chydlynol, gyda thystiolaeth o gynllunio olyniaeth dda.

Mae'r gwaith o gwblhau hyfforddiant gorfodol wedi gwella ers y llynedd.

Dywedodd y staff wrthym y gwelwyd yr uwch-reolwyr yn aml yn yr adeilad, ac roeddent yn gyfarwydd â'r staff ac â'r gwasanaeth a ddarparwyd yn yr uned.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrthi'n ail-lunio ac yn ailddatblygu'r gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a ddarperir ar gyfer cleifion yn y bwrdd iechyd. Mae hwn yn gyfnod arwyddocaol i'r gwasanaeth, a bydd AGIC yn ymddiddori yn ei gynnydd.

Ar hyn o bryd, rydym wedi canfod bod systemau a phrosesau pendant iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, i raddau, trwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r gofal a ddarperir i gleifion. Cofnodwyd y trefniadau hynny fel y gellid eu hadolygu.

Roedd gan uwch-reolwyr dynodedig gyfrifoldebau penodol dros sicrhau bod y rhaglen lywodraethu'n parhau i fod yn hollbwysig i'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd rheolwr y ward yn darparu arweinyddiaeth ymroddgar, a chefnogwyd yntau gan dri dirprwy reolwr, tîm ward ymroddedig a thîm amlddisgyblaeth bychan, a oedd yn cynnwys tri meddyg ymgynghorol a oedd, yn ôl pob sôn, yn gefnogol ac yn ymgysylltu'n dda â'r uned.

Eglurwyd system i ni ar gyfer adrodd ac ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch cleifion a dysgu oddi wrthynt; roedd hyn yn cynnwys dysgu o ddigwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu cefnogi ar ôl digwyddiadau neu ddigwyddiadau y bu bron i ddim iddynt ddigwydd. Roedd hyn yn cynnwys ôl-drafodaeth anffurfiol ac ymarfer myfyriol. Lledaenwyd y gwersi a ddysgwyd trwy strwythur ffurfiol o gyfarfodydd staff. Roedd y Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn cyhoeddi diweddariadau misol.

Roedd y staff uwch a'r rheolwyr yn ymatebol i'n sylwadau yn ystod ein cyfarfod adborth ac ar ddiwedd yr arolygiad. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad. Ond, roedd yn siomedig gweld mai ychydig iawn o'r camau gweithredu a nodwyd yng nghynllun gwella y llynedd oedd wedi'u cwblhau.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Trwy gydol yr arolygiad, gwelwyd tystiolaeth o waith tîm cydlynol o fewn timau a rhwng disgyblaethau er mwyn darparu gofal a thriniaeth unigol.

Ar adeg ein harolygiad, eglurodd y staff uwch fod y staffio bron a bod ar gapasiti llawn. Roedd tîm nyrsio eithaf newydd a oedd yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd, a chefnogwyd hyn gan dîm meddygol a therapiwtig llawn (ond bach).

Nododd yr arsylwadau y gwnaethom yn ystod ein harolygiad fod gan y staff nyrsio'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion cleifion.

Gwelsom o rotâu sifft y nyrsys fod y niferoedd yn briodol ar gyfer nifer y cleifion a oedd ar yr uned ar hyn o bryd. Roedd "gyrrwr" hefyd, a gyflogwyd i drosglwyddo cleifion i ysbytai amrywiol o fewn y bwrdd iechyd. Pan nad oedd yr unigolyn hwn yn gyrru, defnyddiwyd ef fel gweithiwr cymorth gofal iechyd ychwanegol ar yr uned. Cynllun peilot yw hwn ar hyn o bryd, a chlywsom, os bydd yn dod yn swydd barhaol, y bydd angen cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch pellach o'r cerbyd er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cleifion.

Roedd yr holl staff wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaethom adolygu'r hyfforddiant staff. Roedd yn amlwg bod hwn yn cael ei fonitro gan reolwr y ward, a gwelwyd gwelliant sylweddol o'i gymharu ag adroddiad y flwyddyn ddiwethaf. Gwelwyd o'r canfyddiadau o fewn yr adroddiad hwn fod prinder o hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, a chadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Fel arfer, mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn arolygiadau dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi ni i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd unrhyw wybodaeth am Weithio i Wella (proses y bwrdd iechyd ar gyfer codi pryderon/cwynion) na thafleuni ar hyn ar gael i gleifion na pherthnasau eu darllen.	Ni fyddai'r claf/perthnasau'n gwybod sut i leisio pryder/cwyn.	Gwnaeth AGIC amlygu hyn gyda dirprwy reolwr y ward ar ail ddiwrnod yr arolygiad.	Argraffwyd tafleuni a'u gosod yn y stonidin gwybodaeth ger y drws blaen cyn i'r arolygiad gael ei gwblhau.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty'r Sir ar gyfer Iechyd Meddwl

Ward/uned(au): Ward Talygarn

Dyddiadau'r arolygiad: 1, 2 a 3 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Canfyddiad:</p> <p>Canfu AGIC nad oedd y system larwm bersonol a ddefnyddiwyd yn yr adeilad i rybuddio staff o sefyllfaoedd o argyfwng yn addas i'r diben, o ran y ffaith;</p> <p>Nid oedd niferoedd digonol o larymau llaw.</p> <p>Mae'r system yn gofyn i staff siarad i mewn i'r teclyn llaw (yn yr un modd â ffôn symudol) i hysbysu cydweithwyr o le mae'r digwyddiad yn</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Fel sicrwydd ar unwaith, gall yr is-adran gadarnhau'r canlynol:</p> <p>Mae digon o larymau llaw ar y ward, a chaiff pob aelod o staff ar ddyletswydd setiau symud a siarad.</p> <p>Mae diffyg systemau larwm personol mwy penodol eisoes wedi'i roi ar y gofrestr risg ar draws holl gyfleusterau cleifion mewnol iechyd meddwl yr is-adran, yn ogystal â</p>	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/ Nyrs Arwain	Mehefin 2018

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>digwydd. Mae'n bosibl na fydd y staff mewn sefyllfa i gael mynediad at y teclyn llaw er mwyn siarad i mewn iddo mewn sefyllfa o argyfwng.</p> <p>Nid yw'r system hon yn amserol ac nid yw'n darparu amgylchedd diogel i staff na chleifion.</p> <p>Yr hyn y mae angen ei wella:</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd ddarparu system ddiogel ar unwaith ar gyfer rhybuddio staff o bryd a lle mae sefyllfa o argyfwng.</p>		<p>nodyn i gyflymu a blaenoriaethu hyn ar Ward Talygarn. (Mae copi o'r eitem ar yr asesiad risg wedi'i gynnwys er gwybodaeth).</p> <p>Yn ystod y 2/3 wythnos nesaf, bydd yr Adran Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliad o ddiogelwch personol ar bob un o'r wardiau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Bydd hyn yn nodi pa fesurau cyfredol sydd ar waith, pa mor effeithlon ydynt, y meysydd i'w gwella a gwaith ymchwil ar y systemau gorau sydd ar gael ar hyn o bryd.</p> <p>Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn nodi cyfleoedd ar gyfer larymau sy'n gweithio ar draws safleoedd er mwyn galluogi ymateb ledled safleoedd i sefyllfaoedd o argyfwng (h.y. wardiau i oedolion yn cefnogi wardiau i oedolion hŷn).</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Gan gyfeirio'n benodol at system larwm Talygarn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd dyfynbris gyda chostau pendant yn cael ei ddarparu gan y cyflenwr ar 1 Mehefin 2018. • Bydd cais â chynnig cyfalaf yn cael ei gwblhau, ei gadarnhau gan yr is-adran iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a'i gyflwyno i'r Tîm Cyfalaf Corfforaethol erbyn 10 Mehefin 2018. • Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Tîm Gweithredol ar 11 Mehefin 2018 o ran cymeradwyo'r gwaith. 	<p>Gwaith Ystadau ac</p> <p>Timau'r Gyfarwyddiaeth a Rheolwyr Is-adran</p> <p>Tîm Gweithredol</p> <p>Gwaith Ystadau ac</p>	<p>1 Mehefin 2018</p> <p>10 Mehefin 2018</p> <p>11 Mehefin 2018</p> <p>Medi 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Bydd y system larwm yn cael ei harchebu, yn unol â chymeradwyaeth ariannol gan y Tîm Gweithredol. O'r fan hon, disgwylir y bydd yn cymryd oddeutu tri mis i osod y system yn llwyr, a fydd yn cynnwys yr amser i archebu'r rhannau a gosod y system 		

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty'r Sir ar gyfer Iechyd Meddwl

Ward/uned(au): Ward Talygarn

Dyddiadau'r arolygiad: 1, 2 a 3 Mai 2018


Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i reolwr y ward ddatblygu rhaglen ehangach o weithgareddau er mwyn lleihau'r diflastod a ddisgrifiwyd gan gleifion	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	<p>Mae'r Uwch Nyrs/Rheolwr y Ward wrthi'n ymgysylltu â'r swyddog Ymarfer Corff a Llesiant i weithio ar y ward i ddatblygu rhaglen a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd i gleifion fod yn egnïol.</p> <p>Bydd gwirfoddolwyr sydd ar fin dechrau yn cynnig ymgysylltiad gwahanol â chleifion i'r hyn a ddarperir gan staff y bwrdd iechyd.</p> <p>Bydd y ward a'r staff therapi</p>	Uwch-nyrs / Rheolwr y Ward / Therapydd galwedigaethol	Medi 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr iard yn amgylchedd dymunol a diogel i gleifion a pherthnasau, heb unrhyw lygod ynddi</p>		<p>galwedigaethol yn parhau i ddatblygu eu rhaglen ymgysylltu. Bydd hyn yn cynnwys gwaith grŵp Seicolegol a wneir gan gynorthwywyr Seicoleg a therapydd Seicolegol.</p> <p>Mae'r uwch-nyrs wedi uwchgyfeirio'r materion hyn i'r:</p> <p>Rheolwr Cyfleusterau er mwyn mynd i'r afael â'r broblem llygod.</p> <p>yr adran gwaith ac ystadau er mwyn edrych ar y posibilrwydd o baentio/glanhau waliau'r iard</p> <p>gwasanaeth 'Growing Space' y trydydd sector, a fydd yn gweithio gyda chleifion i ddatblygu'r iard</p>	<p>Uwch-nyrs / Rheolwr Cyfleusterau</p>	<p>Mehefin 2018</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwneud ystafell dawel / ystafell heb bethau i gyffroi pobl ar gyfer cleifion sydd angen neu sy'n dymuno cael amser i'w hunain i ffwrdd o gleifion eraill.</p>	<p>4.1 Gofal ag urddas</p>	<p>Mae Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs wedi nodi ystafell y gellir ei defnyddio fel ystafell dawel.</p>	<p>Uwch-nyrs/Rheolwr y Ward</p>	<p>Gorffennaf 2018</p>
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion</p>	<p>5.1 Mynediad</p>	<p>Mae arwyddion teledu cylch cyfyng</p>	<p>Rheolwr ward</p>	<p>Gorffennaf</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>a pherthnasau'n ymwybodol o'r manau lle y mae teledu cylch cyfyng ar waith, a sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y'u nodwyd yn ei Chod Ymarfer ar deledu cylch cyfyng 2018.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod botymau galw nyrs / clychau larwm mewn manau trwy gydol yr uned.</p>	amserol	<p>wedi'u harchebu a byddant yn cael eu gosod pan fyddant yn cyrraedd. Yn y cyfamser, bydd hysbysiadau wedi'u laminadu'n cael eu harddangos</p> <p>Mae archwiliad iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar bob uned aciwt er mwyn edrych ar glychau galw/larwm. Bydd costau'n cael eu cyfrifo ac adroddiad yn cael ei lunio i'w ystyried yn llawn gan y bwrdd iechyd</p>	Rheolwr y Ward /Swyddog Iechyd a Diogelwch	2018 Medi 2018
<p>Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y geiriad ar dderbyn anffurfiol yn y llyfryn gwybodaeth yn llai brawychus.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio ystafell i fyny'r grisiau fel ystafell ddynodedig i deuluoedd/ymwelwyr proffesiynol. Gallai hyn gynnwys llyfrau a theganau ar gyfer plant.</p>	6.2 Hawliau pobl	<p>Mae taflen wybodaeth wedi'i datblygu ar draws pob uned i gleifion mewnol sy'n oedolion, a bydd yn cael ei chadarnhau yng nghyfarfod cynllunio'r gyfarwyddiaeth i oedolion.</p> <p>Mae ystafell wedi'i nodi ar yr uned ac offer cyfeillgar i blant wedi'u harchebu.</p>	SIM/Nyrs Arwain SIM/Uwch-nyrs Ward	Gorffennaf 2018 Gorffennaf 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried prynu ffôn di-wifr er mwyn galluogi cleifion i gael sgysiau preifat dros y ffôn.</p>		<p>Mae gan y ward ffôn symudol a fydd ar gael i gleifion sydd eisiau sgysiau ffôn preifat</p>	<p>Rheolwr / Uwch-nyrs</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod gan gleifion a'u perthnasau fodd o roi adborth ar eu profiadau o'r gwasanaeth.</p>	<p>6.3 Gwrando a Dysgu o adborth</p>	<p>Mae'r ward yn cynnal grwpiau Gofalwyr wythnosol ar hyn o bryd. Roedd clinig wedi'i sefydlu i Ofalwyr, ond nid oedd llawer yn mynd iddo. Felly, mae grŵp gofalwyr wedi'i ddatblygu yn Talygarn i ddarparu cymorth i berthnasau a gofalwyr. Cynhelir y grwpiau dros chwech i saith sesiwn. Bydd y sesiynau'n cynnwys cyngor ar y canlynol-</p> <ul style="list-style-type: none"> Rheoli argyfyngau Iechyd corfforol Tai a budd-daliadau Seicoleg 	<p>Rheolwr y ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Bydd unrhyw bryderon neu awgrymiadau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu bwydo'n ôl i reolwr y ward</p> <p> Carers enlight.docx</p> <p>Mae blwch awgrymiadau wedi'i gyflwyno.</p> <p>Mae'r ward yn cynnal cyfarfodydd cymunedol wythnosol i gleifion. Mae hyn yn caniatáu i'r tîm archwilio ac egluro gweithgareddau ar gyfer yr wythnos i ddod ac i roi gwybod i gleifion am unrhyw newidiadau y gallai fod ar droed ar y ward, yn ogystal â gwrando ar unrhyw gwynion neu bryderon a godwyd gan gleifion.</p> <p>Mae gan y ward 'fwrdd dywedoch chi, gwnaethom ni' i gasglu adborth cleifion ac i wneud cleifion yn ymwybodol o ba</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gamau a gymerwyd, a dangosir hwn yn y prif goridor.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau diogelwch cleifion, perthnasau a staff ym mhob rhan o'r iard</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r pryder ynghylch contraband yn cael ei daflu dros y ffens o amgylch yr iard</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r mynediad at socedi trydanol yn yr ystafelloedd gwely</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd edrych ar leoliad y swits golau yn yr ystafell wely a nodwyd</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Mae costau wedi'u cyflwyno i ehangu cwmphas y teledu cylch cyfyng cyfredol.</p> <p>Mae'r adran Iechyd a Diogelwch wedi cwblhau archwiliad diogelwch ar draws pob uned claf mewnol - aros am yr adroddiad.</p> <p>Bydd yr adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn monitro'r adroddiadau DATIX am y tri mis nesaf i bennu maint y broblem er mwyn cefnogi cynlluniau gweithredu</p> <p>Mae hyn wedi'i adrodd i'r adran gwaith ac ystadau, ac rydym yn aros i'r gwaith gael ei gwblhau.</p>	<p>SIM/Uwch-nyrs</p> <p>Arweinydd iechyd a diogelwch/SIM/Nyrs Arwain/Arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion</p> <p>Arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion / Rheolwr Pryderon</p>	<p>Gorffennaf 2018</p> <p>Medi 2018</p> <p>Gorffennaf 2018</p> <p>Gorffennaf 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod y tîm cynnal a chadw'n cwblhau'r gwaith sydd eto i'w wneud yn y gegin</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan ddrysau tân ddyfeisiau cau magnetig pe bai tân.</p>		<p>Mae hyn wedi'i adrodd i'r adran gwaith ac ystadau, ac rydym yn aros i'r gwaith gael ei gwblhau. Mae'r gwaith ar y gegin wedi'i gwblhau bellach.</p> <p>Mae cais am gostau wedi'i gyflwyno ar gyfer y gwaith hwn</p>	<p>SIM/Uwch-nyrs/Gwaith ac ystadau.</p> <p>SIM/ Rheolwr y Ward / Uwch-nyrs</p>	<p>Gorffennaf 2018</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Gorffennaf 2018</p>
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bibell gollwng dŵr ar gyfer peiriant golchi'r cleifion yn gweithio'n dda</p> <p>Mae angen i reolwr y ward wneud rhestr o'r gwaith ailwampio sydd i'w wneud o hyd a gofyn i'r tîm cynnal a chadw priodol ei gwblhau</p> <p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Mae'r peiriant golchi dillad yn gweithio'n dda nawr.</p> <p>Mae gan reolwr y ward restr o waith ailwampio sydd ar ôl i'w wneud, a bydd hon yn cael ei huwch-gyfeirio i'w chwblhau.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr y Ward / Gwaith ac Ystadau / SIM / Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Gorffennaf 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
toiledau yn gweithio'n dda		Mae'r toiledau'n gweithio'n dda nawr.		Cwblhawyd
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob ward bolisiau a gweithdrefnau cyfredol. Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod statws Deddf Iechyd Meddwl cyfreithiol y claf yn cael ei gofnodi ar y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae Rheolwr y ward wedi e-bostio'r staff i gyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisiau a gweithdrefnau perthnasol ar fewnwyd BIPAB a sut i gael gafael â'r rhain. Mae rheolwr y ward wedi crybwyll hyn i'r holl staff ac wedi cyflwyno proses wirio wythnosol er mwyn archwilio'r gydymffurfiaeth.	Rheolwr ward Rheolwr ward	Cwblhawyd Cwblhawyd
Mae angen i reolwr y ward a'r rheolwr Deddf Iechyd Meddwl sicrhau bod y meysydd o dan bwyntiau bwled yn cael sylw.	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae hyn wedi cael sylw bellach	Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl	Cwblhawyd
Mae angen i reolwr y ward archwilio ac adolygu cofnodion cleifion, yn enwedig y cynlluniau gofal a thriniaeth, a sicrhau bod y rhain yn eu lle, yn fanwl ac yn gyfredol.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae'r is-adran iechyd meddwl ac anawsterau dysgu'n cynnal archwiliadau treigl bob chwe mis - mae'r un nesaf ar gyfer ward Talygarn ym mis Gorffennaf 2018. Bydd Rheolwr y ward yn cyflwyno proses wythnosol o wirio dogfennaeth.	Nyrs Arwain Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Gorffennaf 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Rheolwr y Ward	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ana Llewellyn

Swydd: Nyrs is-adran

Dyddiad: 14 Mehefin 2018